

Cymorth Cristnogol yn rhoi cyfle inni ddiolch wrth dderbyn brechlyn yn erbyn y coronafeirws

Ydych chi wedi cael eich brechlyn eto? Mae cyfradd y bobl sydd wedi ei dderbyn yn anhygoel! Llawer i ddiolch amdano, felly – hyd yn oed yng nghanol yr helbul i gyd.



Mae Cymorth Cristnogol am roi cyfle ichi ddweud diolch mewn ffordd ymarferol – a chyfrannu tuag at waith yr elusen ymhlith y cymunedau hynny fydd yn disgwyl yn hir am eu brechlyn. Gallwch wneud hynny drwy fynd i'n gwefan neu anfon eich siec i'n swyddfa yng Nghaerdydd.

Daw'r cyfle wrth i arolwg barn ddangos bod 60% o bobl Cymru a holwyd wedi cytuno y dylid cydweithio ar raglen frechu fyd-eang er mwyn sicrhau nad yw gwledydd cyfoethog yn cael blaenoriaeth dros wledydd tlawd.

Dangosodd yr arolwg gan Savanta ComRes fod 56% o'r rhai a holwyd yng Nghymru yn teimlo y dylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig alw ar y cwmnïau fferyllol i rannu fformiwla eu brechlyn fel y gellid symud yn gynt gyda'r cynllun brechu.

Mae'r ffigurau diweddaraf yn awgrymu na fydd pedwar o bob pump o bobl mewn gwledydd sy'n datblygu yn cael eu brechu eleni. Er mwyn ariannu rhaglenni brechu, mae'r gwledydd sy'n datblygu'n gorfod torri eu cyllidebau cyfredol a hyd yn oed mynd i ddyled newydd er mwyn prynu'r brechlynnau i'w pobl, gan roi straen ychwanegol ar systemau sydd eisoes dan bwysau mawr oherwydd y pandemig ac argyfyngau eraill megis yr argyfwng hinsawdd.

Dyweddodd Cynan Llwyd, pennaeth gweithredol Cymorth Cristnogol yng Nghymru,



“

Nid mater o lotri cod post ddylai mynediad at frechlynnau allai arbed bywydau fod. Mae'r arolwg barn hwn yn dangos yn glir fod y rhan fwyaf o bobl Cymru yn credu bod yr argyfwng byd-eang hwn yn galw am ymateb teg o amgylch y byd. Ein gobaith gorau o gadw'n ddiogel rhag y feirws yw cael brechlynnau, profion a thriniaethau sydd ar gael am ddim i bawb yn ddiwahân. Does neb yn ddiogel, hyd nes y bydd pawb yn ddiogel.”

Mae Cymorth Cristnogol wedi ymateb i bandemig byd-eang y coronafeirws mewn 27 gwlad sydd hefyd yn dygymod â thlodi eithafol. Yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth ar sut i gadw'n

(parhad ar y dudalen nesaf)

Cyfanswm y bobl yng Nghymru sydd wedi derbyn eu dos cyntaf o'r brechlyn Covid yw 1,019,210, ac mae 206,394 wedi derbyn y cwrs llawn.

Hyd yma (10.3.21), yn ôl ffigurau Iechyd Cyhoeddus Cymru, mae 32.3% o boblogaeth Cymru wedi derbyn y dos cyntaf a 6.5% wedi derbyn y brechlyn llawn.

Diolch am y brechlyn *(parhad o dudalen 1)*

ddiogel rhag y feirws, mae Cymorth Cristnogol wedi rhoi sebon i 250,000 o bobl fregus er mwyn helpu i atal y feirws rhag ymledu, yn ogystal â rhoi pecynnau bwyd i bron i 60,000 o bobl sy'n ei chael hi'n anodd i fwydo'u teuluoedd ar ôl eu colli gwaith yn dilyn y clo.

Er mwyn cefnogi gwaith Cymorth Cristnogol, os gwelwch yn dda, ewch i'n gwefan: <https://www.christianaid.org.uk/> neu glicio ar y ddolen isod:

<https://www.christianaid.org.uk/give/ways-donate/give-thanks-your-coronavirus-vaccine>

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Dyfed Wyn Roberts: 07590 474989

Lloffion o'r Llwyfan

Paratoi ar gyfer y Dyfodol: Cyfnod o Adferiad

Gyda'r niferoedd sy'n derbyn y brechlyn COVID-19 yn cynyddu'n gyflym, fe fydd llawer o'n heglwysy erbyn hyn yn dechrau ystyried ailagor drysau'r capeli unwaith yn rhagor, a gweinidogion ac arweinwyr fel ei gilydd yn gofyn pa fath batrwm fydd ar fywyd yr eglwys yn y dyfodol. Beth fydd y 'normal newydd'? A ellir cael y gorau o ddau fyd drwy gyfuno'r hen batrymau â'r patrymau newydd a sefydlwyd gennym yn ystod y deuddeng mis diwethaf?

Mae'n siŵr mai dyna fydd y nod, ond rhaid bod yn ofalus nad y gwaethaf o ddau fyd a geir hefyd! Dywed rhai na fydd hi'n bosib ailgydio yn gyfan gwbl yn yr hen ddulliau o weithredu, ond go brin y gallwn hefyd ollwng gafael ar bob trefniant a oedd yn bodoli cyn cyfnod COVID-19.

Pa lwybrau bynnag a ddewiswn eu troedio yn y dyfodol, mae'n hollbwysig ein bod yn symud yn bwyllog ac yn ystyriol gan gydnabod bod angen cyfnod o adferiad yn dilyn cyfyngiadau'r cyfnodau clo. Bu'r flwyddyn ddiwethaf yn un anodd a heriol i bawb ohonom, a bydd angen amser i ystyried effaith y pandemig ar fywyd bob dydd. Cafodd y mwyafrif ohonom ein hamddifadu o gwmni teulu a ffrindiau. Ni fu cyfle i ni nodi a dathlu yn y ffyrdd arferol y cerrig milltir arbennig hynny, megis penblwyddi, genedigaethau, priodasau ac angladdau. Yn ogystal, gwelwyd cynnydd dybryd mewn achosion o broblemau iechyd meddwl a lefelau unigrwydd ymysg pobl anabl, sy'n golygu y bydd yn rhaid inni fod yn fwy ymwybodol fel eglwysy o'r modd y gallwn gynorthwyo unigolion sy'n dioddef.

Mewn erthygl a ddarllenais yn ddiweddar yng nghylchgrawn *Rural Ministries*, cyfeiriwyd at ddyd o'r enw Simon

Barrington a fu'n gweithio ar un adeg gyda'r elusen Samaritan's Purse, ac yn fwyaf arbennig at ei brofiad o ddelio â sefyllfaoedd o drychineb. Roedd ei ymwneud ag argyfyngau o'r fath yn seiliedig ar dri cham penodol, sef ymateb, adferiad ac ailadeiladu:

1. yr ymateb: dyma'r cyfnod brys yn union wedi'r drychineb pan mae'n rhaid sicrhau anghenion sylfaenol, megis bwyd a diod;
2. yr adferiad: dyma'r amser i adael i bobl ddod atynt eu hunain;
3. yr ailadeiladu: dyma'r adeg i weithredu syniadau newydd ar gyfer y dyfodol.

Mynegodd Simon Barrington ei gonsŷrn fod llawer o arweinwyr yn neidio o'r cam cyntaf i'r cam olaf heb eu bod yn rhoi amser digonol i'r ail gyfnod, sef y cyfnod o adferiad. Mae'n siŵr y gall nifer ohonom syrthio i'r un fagl wrth brysuro i ailadeiladu ein heglwysy yn ystod y misoedd nesaf, os y caiff y cyfyngiadau eu llacio. Onid oes angen inni felly ystyried y pwysigrwydd o bwyllo a rhoi cyfle i'r holl deimladau o alar, tristwch a rhwystredigaeth a ddeilliodd o'r cyfnod hwn ddod i'r wyneb er mwyn eu cydnabod yn briodol ac i holi cwestiynau penodol? Hynny yw, beth a ddysgwyd gennym fel eglwysy? Beth allwn ei roi o'r neilltu? Beth fyddwn am barhau i'w wneud fel rhan o drefn newydd? A pha bethau fydd angen inni ailgydio ynddynt?

Yn ddi-os, fe fydd llunio atebion i'r cwestiynau hyn yn cymryd amser ac mae'n bwysig ein bod fel eglwysy nid yn unig yn gwrando'n astud ar ein gilydd ond yn gwrando hefyd ar yr hyn sydd gan yr Hollalluog i'w ddweud wrthym.

Judith Morris
Ysgrifennydd Cyffredinol
Undeb Bedyddwyr Cymru

Gwedd

Diolchwn, Dad nefol, am bob dawn a gallu ac adnodd sydd wedi eu rhoi ar waith er mwyn datblygu brechlynnau i'n diogelu rhag effeithiau niweidiol COVID-19 a'i amrywion. Rydym yn dy gydnabod di fel rhoddwr daionus y rhain i gyd.

Gofynnwn am dy fendith wrth i wledydd y byd i gyd fynd i'r afael â'r her o gynnig brechlyn i bawb, a hynny yn wyneb tloidi eithafol ac anghenion fyrdd eraill mewn cymaint o'r gwledydd hynny. Fel yr wyt Ti wedi rhoi dy Fab dy hun mewn cariad er mwyn achub y byd cyfan, helpa ninnau i beidio â gorffwys na theimlo'n ddiogel nes gweld y byd yn gyfan yn derbyn y rhodd o frechlyn.

Dyro ynom galon ddiolchgar a gwna ni'n drugarog fel Tydi dy hun. Er mwyn Iesu'r Meddyg Da, Amen.

Capel Greenfield, Llanelli

Bu'r Parchedig Carys Awen Jones, cyn-weinidog eglwysy Bedyddiedig Bethlehem, Pwll, a Bethania, Llanelli, yn arwain oedfa Saesneg ar y we ar YouTube a Facebook o'r Greenfield ym mis Chwefror. Digwyddodd Deon Caer-gaint, y Parch Ddr Robert Willis, wyllo'r oedfa, a soniodd am neges Carys yn ei oedfa weddi ddyddiol ar ddydd Gŵyl Dewi.

Siaradodd Carys yn onest o'i phrofiad ei hun o fod angen cymorth Duw ar adeg o angen penodol yn ei bywyd. Diolch i Carys am ei neges lawn cysur, yn seiliedig ar Salm 77, sydd wedi cyffwrdd â chalonnau cymaint o bobl. Mae'r [gwasanaeth hwn](#) o'r Greenfield bellach wedi'i weld dros fil o weithiau, a chafwyd llawer o negeseuon cadarnhaol a gwerthfawrogol o bob cwr o'r byd. Diolch i Carys am ei neges arbennig.

Parch David Jones

Drwy'r Beibl Drwy'r Grawys

Cyfres o saith defosiwn gan Joseff Edwards o Gymdeithas y Beibl yn rhoi golwg inni ar ddarlun mawr y Beibl a'n rhan ynddo

Wythnos 5

Y Meseia a'r Efengylau – Iesu'n dod i mewn i'r stori

Darllen: Luc 1:1-4

Myfyrio

Pa atgofion sydd gennych chi o wersi llenyddiaeth yn yr ysgol? Bydd rhai o'r straeon wnaethoch chi eu hastudio yn aros gyda chi, rwy'n siŵr. Mae'r llyfrau gorau yn gadael eu hól ar eich meddwl ac yn newid eich persbectif ar bethau, ac mae hwnnw'n ddylanwad sy'n para ac yn aros gyda chi. Nid yw hynny'n digwydd ar hap a damwain. Mae awduron yn fwriadol am gyffwrdd â'r darlennydd, yn llunio'u geiriau'n ofalus, er mwyn i'r geiriau greu argraff ddofn. Nid yw ysgrifenydd yr Efengylau yn wahanol i hyn; maen nhw'n ysgrifennu gyda bwriad a phwrpas clir.

Beth ydyn ni'n ei ddysgu am bwrpas Luc wrth iddo ysgrifennu ei Efengyl?

Un o'r cwestiynau a ofynnir yn aml ynghylch y Beibl yw: 'Pa mor ddibynadwy yw'r hyn gafodd ei ysgrifennu?' Wedi'r cyfan, mae straeon syfrdanol yn gwerthu llyfrau, ond a ydyn nhw'n seiliedig ar ffeithiau sy'n wir? A allwn ni wir ymddiried a chredu yn yr adroddiadau a ysgrifennwyd am fywyd Iesu?

Efengyl Luc yw un o'r adroddiadau cynharaf sy'n croniclo hanes bywyd Iesu. Mae'n dechrau trwy ddweud wrthym sut a pham yr ysgrifennodd yr hanes. Nid oes unrhyw beth cryptig am y rhagair hwn!

Mae Luc am i'r adroddiadau dilyn a glywodd gael eu croniclo ar bapur i fod ar gof a chadw, fel y byddai gan Theophilus 'sicrwydd o'r pethau' a ddysgwyd iddo. Mae am i Theophilus (nad ydym yn gwybod fawr ddim amdano, ond mae ei enw yn golygu 'ffrind i Dduw') fod â hyder mai Iesu yw'r union berson yr ydoedd mewn gwirionedd. Mae awdur pob un o'r Efengylau'n ysgrifennu gyda phwrpas arbennig. Mae Luc am i bawb weld yr hanes am Iesu yng nghyd-destun cyflawni'r stori a ddechreuwyd gan Dduw – stori sy'n berthnasol i Israel ac yn wir i'r holl fyd!

Byddai ffordd Luc o fynd ati i ddweud y stori'n plesio ac yn bodloni llawer o'i ddarlennydd. Mae'n feddyg, felly mae'n gwybod pwysigrwydd cywirdeb, manylder a threfn. Darllenwch ei waith, a byddwch yn gweld nad sibrydion di-sail yw'r hanesion rhyfeddol hyn, ond hanes go iawn. Nid cofiant cyffredin yw hwn, oherwydd nid dyn cyffredin yw Iesu. Duw ydyw, yn mynd i mewn i'w stori ei hun, ac yn cerdded ar lwyfan hanes y ddynoliaeth gyfan.

Yn wahanol i'r rhan fwyaf o gofiannau, ychydig iawn o sôn sydd yn yr Efengylau am 30 mlynedd gyntaf bywyd Iesu. Yn lle hynny,

maen nhw'n canolbwyntio ar y tair blynedd olaf. Ac maen nhw'n cyrraedd yr hanes am yr wythnos olaf cyn ei farwolaeth fel petaen nhw'n dweud, 'Nid diwedd nodweddiadol mo hwn; ei farwolaeth yw uchafbwynt ei fywyd!' Felly, nid cofnodi bywyd gwych o'r gorffennol yn unig oedd eu bwriad clir, ond galwad i ni i roi ein ffydd yn Iesu nawr.

Ar ôl darllen yr Efengylau, rhaid inni wynebu'r cwestiwn pwysicaf oll: ydyn ni'n credu bod Iesu'r hyn mae'n ei ddweud wrthym ydyw, sef mab Duw? A'r cwestiwn sy'n dilyn yw: a wnawn ni ei gydnabod ef yn Arglwydd ac yn Waredwr i ni yn ogystal?

Ymateb

Ydych chi'n brwydro am sicrwydd heddiw? Beth am fod yn onest gyda'ch gilydd a gweithio trwy'r amheuan sydd gennych chi heddiw?

Beth am fynd ymlaen i ddarllen rhagor o Efengyl Luc yr wythnos hon:

Diwrnod 2: Luc 1.1-56


Diwrnod 3: Luc 4.1-44


Diwrnod 4: Luc 9.1-36

Diwrnod 5: Luc 18.1-43

Diwrnod 6: Luc 23.1-56

Diwrnod 7: Luc 24.1-52




 Coleg y Bedyddwyr
Caerdydd
South Wales Baptist College

Ymunwch â ni ar-lein ar gyfer dau ddiwyddiad arwyddocaol:

Dydd Gwener 26 o Fawrth 2021

11.00-12.00 – Darlith Whitley 2021
Oes mynediad anabl i'r groes hon?
Sgwrs gyda David McLachlan



1.30-3.00 – Gweithdy Gweinidogaeth
Gweinidogaeth i neu â phobl anabl?
Dan arweiniad Martin Hobgen a David McLachlan

Mae rhaid i chi gofrestru o flaen llaw.
Cysylltwch â: rh@swbc.org.uk



O Gefn Gwlad



Ann ac RS

Does dim cylch trafod na gwasanaeth yn ein capel ni ers oes bellach, efo'r aflwydd yn dal i gerdded y wlad. Rhaid gwrandao a sylwi mwy felly ar yr hyn ddaw inni dros y tonfeddi. Ac un o'r sgysiau mwya difyr yn ddiweddar oedd Derec Llwyd Morgan yn trafod Ann Griffiths a'i chariad at yr Iesu efo John Roberts ar *Bwrw Golwg*. Mi gofiais innau imi fod yn trafod yr un peth fwy neu lai mewn darlith unwaith, a hynny trwy ganolbwyntio ar un o gerddi R S Thomas.

Degau o ddelweddau o'r Beibl, gan gynnwys Caniad Solomon, yw'r rhai sy gan yr emynyddes i fynegi ei serch wrth gwrs, megis:

Cofia, Arglwydd, dy ddyweddi,
Llama ati fel yr hydd.

A'r mwyaf adnabyddus ohonynt, efallai:

Rhosyn Saron yw ei enw,
Gwyn a gwridog, teg o bryd.

Mae R S Thomas yn ymateb i ddelweddau Ann yn yr un modd, trwy ddefnyddio cyfeiriadau Beiblaidd. A rhaid dyfynnu yn y Saesneg gwreiddiol yma i wneud cyfiawnder â'r gerdd, cerdd odidog yn fy meddwl i, a Duw sy'n llefaru ynddi ar ôl y llinellau cyntaf. Ond nid yw ei chychwyn yn addawol o gwbl, lle mae'r bardd ei hun yn siarad:

So God spoke to her,
She the poor girl from the village
Without learning ...

Na, doedd Ann ddim yn dlawd. Trigai ar fferm oedd yn cynnal gwas a morwyn; doedd hi ddim yn byw mewn pentre, ond yn Nolwar Fach, allan yn y wlad, ac yn bendant doedd hi ddim yn ddi-ddysg. Cafodd addysg mewn dwy ysgol o leia, a medrai ddarllen ac ysgrifennu Cymraeg a Saesneg.

Ond wedyn mae Duw yn llefaru trwy'r bardd.

'Ymddifyrru yn ei berson',
meddai Ann yn yr emyn.

'Play me,'
he said, 'on the white keys
of your body',
meddai RS yn y gerdd.



Hawffraint: Prifysgol Caerdydd

Wele'n sefyll rhwng y myrtwydd
wrthrych teilwng o'm holl fryd ...
meddai Ann yn yr emyn.

I have seen you dance
For the bridegrooms that were not
to be, while I waited for you
under the ripening boughs
of the myrtle ...
meddai RS yn y gerdd.


Cyfeiriad at y cyfnod pan fyddai Ann yn mynychu dawnsfeydd a gwyliau mabsant yw'r cyfeiriad at y dawnsio. Yna ceir beirniadaeth ar y ffordd y mae crefydd yn rhy aml wedi tynnu'r bywyd allan o'r berthynas gariadus, glòs rhyngom a Duw, y math o berthynas oedd gan Ann:

These people know me
Only in the thin hymns
of the mind, in the arid sermons
and prayers.

Ond nid un felly yw Duw; yn sicr nid un felly oedd o i Ann:

I am the live God
nailed fast to the old tree
of a nation by its unreal
tears.

Ac yna, mewn un ddelwedd, ceir dau gyfeiriad Beiblaidd: un at y wraig wrth



Hawffraint: Llyfrgell Genedlaethol Cymru

ffynnon Jacob a'r llall at y briodas yng Nghana Galilea, dau ddigwyddiad yr oedd perthynas mab a merch yn rhan ohonynt:

I thirst, I thirst
for the spring water. Draw it up
for me from your heart's well and I
will change
it to wine upon your un-kissed lips.

Ydw, rydw i'n rhyfeddu at y gerdd yna gan RS, fel y bydda i'n rhyfeddu at emynau Ann, ac nid yn unig ei mynegiant o gariad. Ystyriwch y llinellau yma:

Rhoi awdur bywyd i farwolaeth
A chladdu'r atgyfodiad mawr
ac eto:

Y greadigaeth ynddo'n symud,
Yntau'n farw yn y bedd.

Ni chafwyd erioed baradocsau mwy nerthol yn holl lenyddiaeth Cymru na'r ddau yna, fel y nododd rhywun o'm blaen i. Wrth ryfeddu at ddoniau R S Thomas, rwy'n rhyfeddu mwy at allu Ann Griffiths i ddarlunio, trwy ei hemynau, ei hymlyniad a'i chariad angerddol at ei Christ. Beth am eu darllen a'u hystyried yn ystod y cyfnod clo 'ma?


**Elfyn Pritchard
Sarnau**

Diweddariad Apêl Undeb Bedyddwyr Cymru er cof am Timothy Richard



Apêl Timothy Richard

MAE FFOADURIAID O SYRIA SY'N BLANT WEDI COLLI POPETH



**GALLWCH CHI EU HELPŪ I FYND YN ÔL I'R YSGOL
A RHOI GOBATH AM Y DYFODOL IDDYNT**

Bob tair blynedd fe fydd y Bedyddwyr yn trefnu apêl arbennig, a hynny bob yn ail gyda Chymorth Cristnogol a'r BMS. Y tro yma, apêl y BMS sydd ar y gweill, a hynny ar adeg cofio canmlwyddiant marw'r cenhadwr Timothy Richard. Mae Timothy Richard yn arwr Cymreig, er nad oes llawer yn gwybod ei enw. Mae ei arwriaeth yn deillio o'i wasanaeth i Iesu Grist a'i wasanaeth i'w gymdogion mewn gwlad dramor.

Yn wreiddiol o Sir Gaerfyrddin, anfonodd Cymdeithas Genhadol y Bedyddwyr ef i Tsieina ym 1869 ac mae'n cael ei gydnabod fel un o genhadon mwyaf arloesol ei ddydd. Gwelir ei waddol yng ngwaith y Gymdeithas Genhadol – y BMS – hyd heddiw. Fe chwaraeodd ran bwysig yn ystod Newyn Mawr Tsieina 1876–9. Sefydlodd brifysgol Tsieineaidd-Orllewinol ac roedd yn teimlo'n angerddol ynghylch rôl addysg fel ffordd o leddfu ac atal dioddefaint. Fe'i parchwyd gymaint gan yr awdurdodau yn Tsieina – am ei

angerdd, ei drugaredd a'i barch tuag at eu diwylliant – fel y cafodd ei wobrwyo â statws Urdd y Ddraig Ddwbl.

Un o'r gweithgareddau niferus yr amharwyd arnyn nhw yn ystod 2020 oedd Apêl Timothy Richard, ac mae bellach wedi'i hymestyn i fis Mehefin 2021. Pwrpas yr apêl yw cefnogi gwaith y BMS gyda phlant ffoaduriaid o Syria sydd wedi ffoi i Lebanon. Mae addysgu plant gartref wedi bod yn frwydr i lawer o rieni yn ddiweddar, ond dychmygwch y profiad o geisio addysgu eich plant mewn gwrsyll ffoaduriaid heb fawr ddim adnoddau, os o gwbl.

Wrth ystyried yr argyfwng economaidd yn Lebanon, y ffrwydrad trychinebus a ddigwyddodd fis Awst diwethaf, ynghyd â'r pandemig byd-eang, sylweddolir yn fuan pa mor anodd yw'r sefyllfa yn y wlad honno. Ac eto, mae'r eglwys yn ymateb i anghenion y ffoaduriaid gyda chroeso a gobath mewn ffyrdd anhygoel.

Hoffem dynnu eich sylw at adnoddau newydd ar gyfer 2021 a all fod o gymorth wrth inni gydsefyll a chydweddio dros blant y ffoaduriaid yn Lebanon. Mae hyn yn cynnwys sgript 'Oedfa'r Sul' gan y Parch Peter M Thomas, sydd, yn garedig iawn, wedi paratoi trefn gwasanaeth llawn sy'n cynnwys darlenniadau, gweddiâu, myfyrdodau, emynau a chyflwyniad PowerPoint.

Ceir pedwar cyflwyniad fideo ysbrydoledig hefyd, gan gynnwys clip gan Nabil Costa, Cyfarwyddwr Gweithredol Cymdeithas Lebanon ar gyfer Addysg a Datblygiad Cymdeithasol, a'i gydweithiwr Wissam, yn siarad am yr hyn y gall yr eglwys ei wneud mewn cyfnod o argyfwng. Ceir hefyd ffilm *Gobaith i Blant Ffoaduriaid*. Mae fideo Apêl Timothy Richard yn ein hatgoffa o'r arloeswr eithriadol hwn a sut y gallwn helpu'r BMS i weithio gyda phlant y ffoaduriaid.

Gellir lawrlwytho'r holl adnoddau uchod o wefan yr Undeb drwy glicio isod:

www.buw.org.uk/apel-timothy-richard-2021

Mae tudalen Apêl BMS ynghyd ag adnoddau ychwanegol ar gael hefyd:

www.bmsworldmission.org/appeal/buw-timothy-richard-appeal/

Yn y cyfnod heriol hwn, os gall eich eglwys gefnogi Apêl Timothy Richard byddwch yn helpu plant y ffoaduriaid o Syria sydd wedi dioddef cymaint ac sy'n byw o dan amodau anodd.

Anfonwch eich rhoddion, taladwy i 'Undeb Bedyddwyr Cymru', i'r swyddfa wedi'u marcio'n glir ag: 'Apêl BMS'.

GOFAL EIN GWINLLAN
Cyfres o weminarau am gyfraniad yr Eglwys yng Nghymru i'r Gymraeg, ei llên a'i diwylliant.

Rhan1: 20 Mawrth, 10.00 - 11.30am
Pynciau'r sesiwn
John Davies, Mallwyd, a rhyddiaith Anglicanaidd yr 17eg ganrif
Dr Dylan Foster Evans, Pennaeth Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd;
Y Salmau Cân yn eu cyd-destun
Parch. Ddr Adrian Morgan, Ficer Plwyf Casllwchwr a Gorseinon.
Cynhelir y sesiynau yn Gymraeg, gyda chyfieithu ar-y-pryd ar gael hefyd.

ADNABOD

CYMERIADAU'R TESTAMENT NEWYDD

CYMERIADAU'R TESTAMENT NEWYDD
AR LWYBR Y GROES

Cyfes o astudiaethau Beiblaidd ar gyfer y cartref neu grŵp gan y Parch. Denzil I. John

Mae testun a chyflwyniad fideo o'r deunydd hwn ar gael ar wefan y Cyngor Ysgolion Sul:
www.ysgolsul.com/?page_id=804

Gwers 37 – Lasarus

Gweddi

Arglwydd, plygwn ger dy fron wrth gerdded tuag at y Pasg. Wrth gofio hanes Lasarus, cofiwn am bawb sy'n galaru, a gofynnwn am dy fendith drugarog arnynt. Helpa ni i weld y myfyrdod hwn fel ffordd o ddyfnhau ein ffydd a derbyn Iesu heb ei amau. Amen.

Darllen

Ioan 11:38–44; 12:9–11 – Atgyfodi Lasarus a'r cynllwyn i'w ladd

Cyflwyniad

Yn ystod gweinidogaeth Iesu ceir tair enghraifft ohono'n codi person marw yn ôl i fywyd. Y tri oedd: merch Jairus, mab y wraig weddw o Nain, a Lasarus. Nodwyd gan amryw fod y cyntaf yn ferch ifanc ac wedi bod yn farw ychydig oriau, yr ail yn ddyn ifanc ac wedi marw ers diwrnod, a'r trydydd yn ŵr hŷn ac wedi bod yn ei fedd ers pedwar diwrnod. Ceir y syniad fod yr Efengylau am gyfleu bod mwy o ryfeddod ym mhob enghraifft, a phan atgyfododd Iesu o'r bedd, roedd y wyrth yn dystiolaeth mai llaw Duw ei hun oedd yn bŵer yr atgyfodi.

Roedd y teulu ym Methania yn ffrindiau i'r Iesu, a chawn y syniad fod Iesu yn ymwelydd cyson. Dywedir bod Iesu yn caru Mair, Martha a Lasarus (adn 12). Pan nodir bod Iesu wedi wylo o glywed am farwolaeth Lasarus, gwelwn ef â gwedd ddynol ac emosiwn naturiol galar iddo. Brawddeg na fyddwn yn sylwi arni yn aml yw'r un sy'n ymateb i neges Mair a Martha yn dweud fod Lasarus yn wael, ac i Iesu ymateb drwy ddweud: 'nad yw'r gwaeledd hwn i fod yn angau i Lasarus, ond yn ogoniant i

Dduw; bydd yn gyfrwng i Fab Duw gael ei ogoneddu drwyddo' (11:4). Y dybiaeth yw fod Iesu yn barod i dderbyn y byddai salwch a marwolaeth Lasarus yn cynnig cyfle i'r Iddewon dderbyn ei fod yn Fab Duw, ac y byddai ei ffrindiau agosaf yn rhan o'r dystiolaeth. Gogoneddu Duw oedd y nod, a dwyn pobl Dduw yn ôl ato. Roedd Ioan yn ysgrifennu'r geiriau hyn i bwrpas, fel y byddai'r sawl a ddarllenai ei Efengyl yn sylweddoli bod Iesu yn barod i brofi ing galar er mwyn darbwyllo'r Iddewon. Methiant fu hynny, a hyd yn oed o wynebu artaith y croeshoelio ei hun, ni fu i'r Iddewon dderbyn cynllun Duw o gymodi'r byd ag ef ei hun.

Myfyrdod

Bydd pob gwyrrth yn rhyfeddod, a bu llawer yn ceisio cynnig eglurhad o'r hyn a ddigwyddodd. Ond o dderbyn bod yr Iesu croeshoeliedig yn Iesu byw, bydd derbyn pob gwyrrth yn haws. Nid ydym i ddibynnu ar ein gallu i ymresymu a deall. Gwahoddiad i gredu yw'r Efengyl, nid ymarferiad athronyddol ac academaidd. Mae'r hanes yn fwy na darlun prydfferth; mae'n dystiolaeth fod i'r Iesu allu dwyfol. Gwahoddiad i gredu sydd yn y bennod hon. Brawddeg allweddol yr hanes am Lasarus yw'r ateb sy'n cael ei rhoi ar wefusau Martha, sy'n datgan: 'Ydywif Arglwydd, yr wyf yn credu mai tydi yw'r Meseia, Mab Duw, yr Un sy'n dod i'r byd.' (11:2)

Beth felly yw ein hymateb ni i'r cwestiwn: 'A wyt ti'n credu hyn?' Yn y bennod nesaf, ceir dwy frawddeg yn dweud bod y prif offeriaid nid yn unig am ladd Iesu, ond eu bod yn cynllwynio i ladd Lasarus hefyd, 'gan fod llawer o'r Iddewon o'i achos ef, yn gwrthgilio ac yn credu yn Iesu'.

Mae'n rhyfedd fel y bydd crefyddwyr yn barod i ddefnyddio trais er mwyn amddiffyn eu cyfundrefn a'u crefydd. Gwelwyd hyn gan yr Iddewon yng nghyfnod Iesu, ac mae eu defnydd o drais a grym milwrol i'w weld yn y Dwyrain Canol heddiw. Bu llawer o dystiolaeth am gyfundrefnau eithafol Mwslemiaid yn arfer trais i sicrhau eiddo ac amddiffyn eu crefydd, a bu Cristnogion yr un mor filaraidd yn enw'r ffydd o'r Croesgadau hyd heddiw. Pan ynganodd Iesu y frawddeg: 'O Dad, maddau iddynt' o ganol gwewyr y croeshoelio, a fyddwn yn gweld bod cynllun Duw yn rhagorach nag unrhyw dybiaethau sydd gan ddynion dros amddiffyn y ffydd ag arfau? Trugaredd a chymod a gras yw arfau Iesu wrth iddo ennill pobl i dragwyddoldeb.

Gweddi

Nefol Dad, bydd cofio hanes y teulu ym Methania yn ein herio i ofyn sut ydym ni, sy'n hawlio bod yn ffrindiau Iesu, yn ymateb iddo? Ai fel ffrindiau yn unig, sy'n falch o'i gwmmni ac yn mwynhau gwranddo ar ei eiriau, neu fel pobl ffydd sy'n credu ei fod yn Arglwydd, yn Waredwr ac yn Fab Duw? Wrth gerdded llwybr y Grawys, helpa ni i weld gogoniant yr Atgyfodiad. Amen.

Trafod ac ymateb:

- Beth yw'r arwyddion yn hanes codi Lasarus fod Iesu yn gwbl ddynol a dwyfol yr un pryd?
- Beth yw eich ymateb i'r cwestiwn yn y frawddeg: 'A wyt ti'n credu hyn?' Beth yw achos anhawster pobl i ateb fel Martha?
- Faint rydym ni wedi rhannu ein cred yn Iesu, 'yr atgyfodiad a'r bywyd', a faint o wahaniaeth mae'n ei wneud i'n bywyd beunyddiol?

S4C

Sul, 21 Mawrth

Oedfa Dechrau Canu, Dechrau Canmol am 11:00yb yng ngofal Robat Powell, Abertawe

Dechrau Canu, Dechrau Canmol, nos Sul, am 7:30yp

Ar ddiwedd Wythnos Genedlaethol Iaith Arwyddo, bydd Nia yn cwrdd â theulu arbennig iawn, pâr priod ac aelwyd deuluol sydd wedi byw efo nam clyw ers degawdau lawer, ac wyres sy'n gwneud ei rhan i helpu eraill yn yr un sefyllfa. Ac mi fyddwn ym Mro Ardudwy i weld sut mae sgiliau neilltuol un offeriad yn gwneud byd o wahaniaeth i bobl fyddar a thrwm eu clyw.

Ceir mynediad i gylchlythyr mis Mawrth o Dechrau Canu, Dechrau Canmol o ddilyn y ddolen hon: <https://spark.adobe.com/page/l2na2z0u0ib18/>



Sul, 21 Mawrth

Caniadaeth y Cysegr am 7:30yb a 4:30yp
Bydd pedwarawd sy'n cynnwys Naomi Griffiths, Sioned Mai Watkins, Aled Wyn Thomas a Rhys Griffiths yn ymuno â chyfeillion i ganu detholiad o emynau. Branwen Gwyn sy'n cyflwyno.

Oedfa Radio Cymru am 12:00yp yng ngofal Trystan Owain Hughes, Caerdydd

Gweithredu a Gweddio gydol y Grawys

19

Dydd Gwener, Mawrth 19^{es}

Gweithred: Beth am drefnu i gyfarfod rhywun mewn parc heddiw er mwyn mynd am dro a chael sgwrs? Cofiwch fod pedwar person o ddwy aelwyd yn cael cyfarfod yn lleol erbyn hyn.

Gweddï: Gweddïwch dros bawb sy'n trefnu ac yn rhoi'r brechlyn i'r rhai rhwng 60 a 65 yng Nghymru erbyn hyn.

20

Dydd Sadwrn, Mawrth 20^{fed}

Gweithred: Gwnewch adduned i brynu wy Pasg i gymydog pan fyddwch yn siopa nesa.

Gweddï: Gweddïwch dros bawb sy'n ei chael hi'n anodd ar benwythnos oherwydd y cyfyngiadau cymdeithasol.

21

Dydd Sul, Mawrth 21^{ain}

Gweithred: Darllenwch bennod 23 o Efengyl Mathew i baratoi ar gyfer yr Wythnos Fawr.

Gweddï: Gweddïwch dros bawb fydd yn cynnal gwasanaeth heddiw, boed mewn capel neu dros y we.

22

Dydd Llun, Mawrth 22^{ain}

Gweithred: Beth am adael bocs o siocledi ar stepen drws eich ysgol leol? Diolchwch i'r holl staff am eu gwaith.

Gweddï: Gweddïwch dros holl staff ein cylochoedd meithrin, ysgolion a cholegau.

23

Dydd Mawrth, Mawrth 23^{ain}

Gweithred: Os yw'n ddiogel, beth am drefnu i gyfarfod rhywun sy'n byw ar ei phen ei hun neu ar ei ben ei hun mewn gardd?

Gweddï: Gweddïwch dros holl staff yr heddlu a'r gwasanaethau argyfwng eraill yng nghyfnod y COVID-19, ac ar iddyn nhw gael eu cadw'n ddiogel.

24

Dydd Mercher, Mawrth 24^{ain}

Gweithred: Os byddwch yn mynd am dro, beth am wneud ychydig o waith tacluso a llau ar eich taith?

Gweddï: Gweddïwch dros bawb mewn cartref gofal, gan gofio hefyd am y rhai sy'n cael dechrau gweld eu hanwyliaid unwaith eto, ac ar iddyn nhw gael eu cadw'n ddiogel.

25

Dydd Iau, Mawrth 25^{ain}

Gweithred: Beth am roi rhodd i elusen heddiw? Mae modd gwneud hyn yn hawdd ar lein.

Gweddï: Gweddïwch dros y rhai hynny sy'n gweithio neu'n astudio mewn coleg yn bell o adre, nad ydyn nhw'n medru gweld eu teuluoedd ar hyn o bryd.



Newyddion lleol o'r eglwysi

Rydym yn awyddus iawn i gynnwys newyddion o'r eglwysi lleol: digwyddiadau, symudiadau, teyrngedau byr, llongyfarchiadau a dymuniadau gorau. Gyrrwch eich newyddion at y golygydd newyddion eglwysi, Aled Davies at aled@cennad.cymru

Ar daith gyda Chymdeithas y Beibl drwy'r Grawys a'r Pasg

Mae'r Grawys yn gyfnod o fyfrio pan ydym yn teithio gydag Iesu ar ei lwybr i'r groes ac yn dathlu ei atgyfodiad. Ac mae gan Gymdeithas y Beibl lu o adnoddau i'ch helpu i fyfrio a dathlu. Mae'r adnoddau hyn ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

Ar gyfer teuluoedd

Popeth am y Pasg – Rhigwm yr Atgyfodiad

Mae ein llyfryn Pasg newydd i blant, sy'n dod yn fyw gyda rhigymau Bob Hartman, yn archwilio'r digwyddiadau'n ymwneud ag atgyfodiad Iesu a pham ein bod wir yn dathlu'r Pasg. Mae tudalennau gweithgareddau i'r teulu yng nghanol y llyfryn, sy'n berffaith fel anrheg i blant yn eich teulu, eich cymuned a'r ysgol.

Archebwch nawr

Popeth am y Pasg – Adnoddau Ychwanegol

Cymerwch olwg ar y gweithgareddau gwych y gallwch eu gwneud gyda'ch teulu dros y Pasg, gan gynnwys gemau a chreffft.


Ewch i'r gweithgareddau

Adnoddau'r Pasg ar gyfer pob oed

Animeiddiad o stori'r Pasg a thafenni lliwio, i'w defnyddio gyda'ch eglwys a'ch cymuned.

Y cyfan ar gael o ddilyn y dolenni uchod neu drwy chwilio ar wefan Cymdeithas y Beibl am y gwaith sy'n cael ei wneud yng Nghymru:

www.biblesociety.org.uk



Dyma gyfarfod hyfryd iawn

Dyma babell y cyfarfod ...

Emyn 207: 'Cyfamod hedd'

Gweddi

Arglwydd Dduw, addewaist i'th bobl wrthryfelgar, flinedig ac ofnus y byddai'r sawl oedd yn gobeithio ynot yn adnewyddu ei nerth, yn rhedeg heb flino, yn rhodio heb ddiffygio. Caniatâ i ninnau, drwy waith dy Ysbryd Glân o'n mewn, brofi'r adnewyddiad hwn eto heddiw. Drwy Iesu Grist, Amen.

Cyflwyniad: Cyfamod y galon

Mewn byd oedd ar fin gael chwalu, mewn dinas oedd ar fin gael ei difa, yng nghanol ei bobl oedd yn cefnu ar yr Arglwydd clywodd Jeremeia air o obaith, neges o gysur, neges am gyfamod newydd Duw. Cyfamod oedd a'i freintiau'n cael ei estyn i'r byd y tu hwnt i'w genedl ei hun.

Darlleniad: Jeremeia 31:31-4

Cyflwyniad: 'Gweld wyneb fy anwylyd ...'

Nos Fercher oedd hi yn nechrau Hydref yn 1982. Roeddwn yn cynnal oedfa 'ar brawf' yng Nghapel Bethel, Cross Hands (Capel y Drindod heddiw) a chynulleidfia groesawus yn gwenu arnaf wrth i mi gamu i'r pulpud am y tro cyntaf. Ac yno o'm blaen ar ddarn o bren oedd y geiriau 'Syr, ni a ewyllysiem weled yr Iesu.' Gwyddwn fod yr enwog Charles Simeon yng Nghaergrawnt wedi gosod rhywbeth cyffelyb yn y pulpud yno. Nid oeddwn wedi gweld neges debyg er i mi bregethu ym mhob rhan o Gymru. Nid oes unrhyw fraint fwy i bregethwr na chael bod mewn cynulleidfia sy'n gofyn ganddo neu ganddi ar ddechrau oedfa: 'Wnei di ddangos Iesu i ni?' Hoffwn feddwl nad wyf wedi camu erioed i arwain oedfa heb yr ymwybyddiaeth yna: 'Syr, ni a ewyllysiem weled yr Iesu.'

O droi at gyd-destun ein darlleniad, dylem gofio bod Iesu (yn y bennod flaenorol) wedi sefyll gerllaw bedd Lasarus ei gyfaill gan gyhoeddi mai, 'Myfi yw'r Atgyfodiad a'r bywyd.' Pryder ei wrthwynebwyr, am fod y dyrfa'n rhyfeddu at yr 'arwydd', oedd y 'bydd pawb yn credu ynddo' (11:48). Wedi ei orymdaith ostyngedig i Jerwsalem ar Sul y Blodau, roeddynt yn grwgnach ymhellach: 'Edrychwch. Nid ydych yn llwyddo o gwbl. Aeth y byd ar ei ôl ef.' (12:19) Ac yr oedd dymuniad y 'Groegiaid' yn fynegiant o hynny.

Darlleniad: Ioan 12:20-34

Cynildeb sy'n nodweddu'r disgrifiad hwn gan Ioan. Ymhlith disgyblion Iesu roedd yna ddau a chanddynt enwau 'Groegiaid', sef Andreas a Philip. Naturiol felly oedd i bobl nad oeddynt yn Rhufeiniaid neu o dras Iddewig i chwilio am eu tebyg. Mae'n bur debyg mai 'Groegiaid' oeddynt o ran eu diwylliant yn hytrach na'u hil. Nid yw Ioan yn dweud wrthym a oeddynt yn ymlynu wrth y grefydd Iddewig o gwbl. Digon ganddo yw datgan bod yna rai oedd yn cynrychioli'r 'byd' oedd am ganlyn Iesu.

Wrth fynegi eu dymuniad: 'Syr, hoffwn weld Iesu', nid mynegi awydd i 'weld' o bell ac i edmygu o bellter a wnaethant.

Mae'r ddau sy'n cychwyn ar y canlyn yn ymateb i'r awydd i 'weld' ei gilydd eto. Awydd i dreulio amser, i sgwrsio, i ddod i adnabod ei gilydd yw'r 'gweld' hwn. A dyna ddymuniad i'r 'Groegiaid' hyn. Mae ymateb Iesu'n enigmatig, a dweud y lleiaf. Yr hyn mae'n ein harwain i ystyried yw pa fath o ddisgwyliad oedd ganddynt o flaen llaw am Iesu? A beth, tybed, yw'n rhagdybiaethau athronyddol neu ddiwyllianol ninnau wrth geisio 'gweld' Iesu?

- **'Y mae'r awr wedi dod'** (adn 23) Ac yntau yn wythnos olaf ei fywyd, mae Iesu'n cyhoeddi bod awr ei 'ddyrchafiad' gerllaw. Cyn hyn, 'nid yw fy awr i wedi dod' oedd ei air (2:4). Bellach mae awr ei groeshoeliad ar y gorwel. Daeth yr awr.
- **Awr gogoneddu Mab y Dyn** (adn 23) Gwyddom o ddarllen Mathew, Marc a Luc fod Iesu'n rhybuddio'i ddisgyblion na châi Mab y Dyn ei ogoneddu heb yn gyntaf wynebu dioddefaint, marwolaeth ac atgyfodiad (Marc 8:31). Heb groes, nid oes coron. Ac ym meddwl Iesu unir Mab y Dyn dyrchafedig â gwas yr Arglwydd sy'n cael ei ddirmygu. (Eseia 53:10)

Ceir dwy elfen bellach:

1. hedyn y groes

Iesu, yr hedyn sy'n marw i fyw (adn 24)
Iesu'r patrwm i fyw (adn 25)
Addewid Iesu i fyw (adn 26)

2. cyflawniad y Groes

I ni sydd efallai'n ystyried neges y groes yn dramgwydd, neu'n 'morbid' neu'n ddiangen, mae Iesu'n datgelu i'w wrandawyr (er na

wnaethant ddeall hynny ar y pryd, ac er ein bod hyd heddiw'n ymgodymu â'i eiriau) effeithiau cosmig ei ddiodeffaint.

Ei ddyrchafiad ar y groes yw:

- awr barnu'r byd (adn 31) – yma y gwelir dewis byd sy'n elyniaethus i Dduw a'i fwriadau ar ei fwyaf eglur
- awr barnu tywysog y byd hwn (adn 31) – yn ei farwolaeth concrir a dinistrir 'gweithredoedd y diafol' (1 Ioan 3:8)
- awr gwahodd y byd ato'i hun (adn 32) – yn awr caiff y rhai a dwyllwyd, y rhai a gaethiwyd eu gwahodd i adael tywyllwch eu hamgylchiadau, i 'ddod at y goleuni' a dod yn blant y goleuni.

Mae'n siŵr ein bod ninnau heddiw'n deall awydd y Groegiaid i 'weld' Iesu. Ond nid yw Iesu'n cynnig ateb rhwydd i ni. Bu dramodwyr a beirdd yr oesau, artistiaid a chyfarwyddwr ffilmiau oll yn ceisio cynnig portread o Grist i ni. Ond mae geiriau Iesu'n parhau i'n baglu. Nid oes modd gweld ei ogoniant heb ddirnad ei groes. A dim ond yn ei fuddugoliaeth ar Galfaria y cawn weld yr anrhydedd a'r urddas a'r gwerth a roddodd yr Arglwydd arnom. Iesu croeshoeliedig yw seliwr addewid Jeremeia. Dim ond drwy'r groes y cawn ei adnabod.

Gweddi

Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist, Duw'r cyfamod tragwyddol ei barhad, plygwn ger dy fron. Mae dirgelwch dy weithredoedd yn ein cymell i sylweddoli o'r newydd nad yw dy feddyliau di fel ein meddyliau ni. Gosodaist groes cyn coron, a hunanaberth yn ogoniant; concwerwyr marwolaeth mewn dyn ar y llawr, gan lenwi gwacter ein gwrthgiliaid yn Iesu Grist.

Ar drothwy'r Pasg eleni, caniatâ i ninnau gael ein denu atat. Dyrchafwn di yn ein calonnau. Dyrchafwn di dros ein gwerthoedd, ar ein cyfeiriad a'n byw. Arglwydd Iesu Grist, drwy waith mewnol dy Ysbryd Glân, cyffeswn dy fod heddiw yn Arglwydd ar bob cylch o fywyd: dros ein pechodau, ein hofnau, ein gorffennol, ein dyfodol a'n heddiw gyda'i amrywiol heriau. Arglwydd, 'hoffwn weld yr Iesu'. Amen.

Emyn 347: 'Pa meddwl, pa 'madrodd, pa ddawn?'

RWJ

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@cennad.cymru

www.cennad.cymru | [f CennadCymru](https://www.facebook.com/CennadCymru) | [t @CennadCymru](https://twitter.com/CennadCymru)